Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol

Yn cau 15 Medi 2023

Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

**Cwestiwn 1: Beth yw eich barn am gwmpas y Cynllun heb ei newid?**

Credwn fod angen i'r Cynllun addasu ar gyfer yr amgylchedd trais troseddol presennol, lle defnyddir y rhyngrwyd fel arf. Dylai effaith rhannu delweddau cam-drin rhywiol sy'n cynnwys plant ac oedolion diamddiffyn a all arwain at ddioddefwr yn ail-brofi trawma gael ei chynnwys yn y Cynllun. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd bygythiad o drais drwy aflonyddu a dulliau eraill ar-lein yn cael effeithiau sy'n newid bywyd, lle gallai newid arferion effeithio ar allu dioddefwr i fynd i'r gwaith yn rheolaidd neu adael y tŷ. Gallai olygu bod yn rhaid iddynt wella diogelwch eu cartref eu hunain dan gyngor yr heddlu heb i neb gael ei gyhuddo. Mae'n bosib y byddai'n rhaid i'r dioddefwr symud tŷ hyd yn oed. Gall yr effeithiau hyn newid bywyd, mewn ffordd debyg iawn i pe bai ymosodiad corfforol wedi digwydd. Gall atal y dioddefwr rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau arferol gyda theulu a ffrindiau.
Dylid ei ymestyn hefyd i gynnwys hunanladdiad neu ymgais i gyflawni hunanladdiad lle mae elfen o gam-drin domestig, gan gynnwys gorfodaeth. Credwn y dylid ymestyn hyn i achosion lle mae dioddefwyr yn cael eu hannog i hunan-niweidio drwy'r rhyngrwyd, yn enwedig pan fo'r dioddefwr yn blentyn neu'n oedolyn diamddiffyn.

**Cwestiwn 2: Beth yw eich barn am ddiwygio'r diffiniad o drosedd treisgar i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol?**

Rydym yn cytuno â'r cynnig i ymestyn y diffiniad o drosedd o drais i gynnwys cam-drin rhywiol ar-lein, fel yr argymhellwyd gan yr ymchwiliad. Fodd bynnag, byddem yn ymestyn y diffiniad i gynnwys cam-drin oedolion diamddiffyn yn rhywiol a hunanladdiad neu ymgais i gyflawni hunanladdiad, lle mae elfen o gam-drin domestig neu lle anogir plentyn neu oedolyn diamddiffyn i gyflawni hunan-niwed drwy'r rhyngrwyd.

**Cwestiwn 3: Pa droseddau rhywiol di-gyswllt yn erbyn plant y dylid eu cynnwys yng nghwmpas y Cynllun?**

Pob ffurf lle defnyddir y rhyngrwyd naill ai fel arf i dynnu neu i rannu pornograffi neu ddeunydd o gam-drin plant yn rhywiol gydag unrhyw blentyn neu oedolyn diamddiffyn. Mae hynny ynddo'i hun yn fath o gam-drin rhywiol i'r plentyn/plant dan sylw a'r unigolion sy'n cael eu gorfodi i'w wylio.

**Cwestiwn 4: Beth yw eich barn am ddod â throseddau digyswllt difrifol o fewn cwmpas y Cynllun?**
Rydym yn cytuno mewn egwyddor y dylid ymestyn y cwmpas i gynnwys troseddau digyswllt difrifol.

**Cwestiwn 5: Pa droseddau digyswllt y dylid eu cynnwys yn y Cynllun?**
Credwn y dylid cynnwys troseddau digyswllt wyneb yn wyneb ac ar-lein sy’n cael effaith sy’n newid bywyd, y crybwyllwyd yn ein hymatebion yn gynharach. Gallai’r rhain gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Hunanladdiad neu ymgais i gyflawni hunanladdiad, lle ceir cam-drin domestig gan gynnwys gorfodaeth.
- Hunan-niwed gan gynnwys hunanladdiad neu ymgais i gyflawni hunanladdiad lle mae gorfodaeth yn ymwneud â defnyddio'r rhyngrwyd.
- Caethwasiaeth fodern gan gynnwys masnachu mewn pobl.
- Diogelu cyd-destunol gan gynnwys cam-fanteisio troseddol lle mae’r bygythiad o drais a dial yn dylanwadu ar ymddygiad y dioddefwr, boed yn bersonol drwy’r rhyngrwyd neu drwy ddulliau eraill o gyfathrebu.
- Stelcio ac aflonyddu sy'n arwain at effeithiau newid bywyd i’r dioddefwr.
- Unrhyw fath o gam-drin rhywiol neu drais rhywiol ar blant ac oedolion diamddiffyn, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cyfyngu gan sylweddau.

***Terfynau Amser***

**Cwestiwn 6: Beth yw eich barn am gadw cyfyngiadau amser y Cynllun yr un fath?**
Credwn y dylai argymhelliad yr ymchwiliad gael ei gymhwyso ar gyfer ymgeiswyr sy’n ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol hyd at saith mlynedd. Credwn hefyd, gydag oedi parhaus yn y system gyfiawnder, y gallai fod yn fwy priodol dychwelyd y terfyn amser i dair blynedd fel yr oedd cyn 1996 er mwyn caniatáu i’r system gyfiawnder symud fwy ymlaen. Byddai hyn yn caniatáu i ddioddefwr neu deulu ganolbwyntio ar y broses o wneud cais am iawndal.

**Cwestiwn 7: Beth yw eich barn am ddiwygio terfyn amser y Cynllun i saith mlynedd ar gyfer ymgeiswyr cam-drin plant yn rhywiol a oedd yn blant dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf, gyda’r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn cadw disgresiwn i ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol?**
Mewn egwyddor, rydym yn cytuno ag ymestyn y terfyn amser i saith mlynedd ar gyfer ymgeiswyr cam-drin plant yn rhywiol, er mwyn caniatáu amser i brosesu yn ystod y cyfnod hwn. Mae’r cyfnod eisoes yn drawmatig, wrth i’r dioddefwr gamu ymlaen ac adrodd i'r Heddlu ac unrhyw awdurdodau perthnasol eraill.

**Cwestiwn 8: Pa gamau pellach y gellid eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o’r Cynllun a’i derfynau amser?**
Dylai fod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth a dylai fod ar gael ym mhob cam o broses y system gyfiawnder. Rydym hefyd o’r farn y gallai fod cyfle i ddefnyddio’r trydydd

sector drwy gomisiynu ymgyrch ymwybyddiaeth drwy sefydliadau fel Victim Support, Crimestoppers, NSPCC, Barnardos a Women's Aid. Gallai dioddefwyr deimlo'n fwy cyfforddus yn siarad â nhw, gan ymddiried ynddynt i fod ar eu hochr, a'u gweld fel dioddefwyr yr holl ffordd drwy'r broses.

**Cwestiwn 9: Beth yw eich barn am ddiwygio terfyn amser y Cynllun i saith mlynedd ar gyfer pob cais, gyda'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn cadw disgresiwn i ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol?**
Byddai ymestyn terfyn amser y Cynllun i saith mlynedd yn ei wneud yn fwy tryloyw a chyson ac ni fyddai'n achosi unrhyw broblemau posibl pe bai'r achos o gam-drin yn digwydd cyn ac ar ôl pen-blwydd y dioddefwr yn 18 oed. Byddai hefyd yn golygu nad oes proses ddwy haen lle mae un grŵp o ddioddefwyr yn cael eu trin yn wahanol i eraill a all fod o oedran tebyg ond sydd wedi bod drwy fathau eraill o drais neu gamdriniaeth. Gall cael cysondeb o ran oedran hefyd helpu gydag unrhyw ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iawndal. Po fwyaf o wahaniaethau sydd yn y cynllun, y gwanaf yw'r negeseuon.

**Cwestiwn 10: Pe bai'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau i'r Cynllun yn cael ei ymestyn i saith mlynedd, naill ai ar gyfer ceisiadau mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol neu ar gyfer pob cais, a oes angen i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol gadw disgresiwn i ymestyn y terfyn amser ymhellach mewn amgylchiadau eithriadol?**
Credwn y dylid cadw'r opsiwn amgylchiadau eithriadol. Nid ydym yn gwybod beth allai ddigwydd yn y dyfodol ac efallai y ceir sefyllfa eithriadol bob amser.

**Cwestiwn 11: Beth yw eich barn ynghylch newid y terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd a oedd yn blant dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf?**
Fel y crybwyllwyd yn ein hateb i gwestiynau 6 a 7, credwn y dylid ymestyn y terfyn amser i dair blynedd o leiaf ar gyfer pob ymgeisydd yn cynnwys plant.

**Cwestiwn 12: Beth yw eich barn am newid y terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd i'r Cynllun?**
Fel y crybwyllwyd yn ein hateb i gwestiynau 6 a 7, credwn y dylid ymestyn y terfyn amser i dair blynedd o leiaf ar gyfer pob ymgeisydd.

***Cydraddoldeb***

**Cwestiwn 13: Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir amrediad ac ystod yr effeithiau ar gydraddoldeb o beidio â newid ac ar gyfer pob un o'r diwygiadau posibl a nodir yn yr ymgynghoriad hwn (Atodiad A)? Rhowch resymau a thystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb fel y bo'n briodol.**
Gwelwn nad oes unrhyw sôn am ffactor economaidd-gymdeithasol, sy'n nodwedd cydraddoldeb yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad yn berthnasol ledled Cymru a Lloegr, ac felly rydym o'r farn y dylid ei gynnwys.

Nid oes sôn ychwaith am y Gymraeg ac ystyriaethau o ran ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg yng Nghymru. Er bod yr ymgynghoriad wedi'i gyfieithu, mae hyn wedi'i fethu yn yr asesiad o effaith.
Er bod anabledd wedi'i grybwyll yn gyffredinol a'r angen i wneud addasiadau rhesymol, nid oes unrhyw sôn am ddefnyddio dulliau cyfathrebu amgen megis BSL, Makaton, Braille neu ddulliau cyfathrebu cyffyrddol.

**Cwestiwn 14: Oes unrhyw ddull lliniaru o ran effeithiau ar gydraddoldeb nad ydym wedi ei ystyried?**
Credwn fod perygl i wahanol derfynau amser ar gyfer gwahanol achosion ac oedrannau fod yn wahaniaethol, ac felly credwn y byddai newid cyson i derfyn amser o saith mlynedd yn lliniaru'r posibilrwydd hwn.

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.